EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020

Rhif 89 – Unawd Cerdd Dant 19 – 25 oed
'Nid Llwynog oedd yr haul' - Myrddin ap Dafydd
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn

Cainc: Trefynach, Owain Siôn (1122) – Ceinciau Llwyndyrus, Cyhoeddiadau Sain
Dylid canu pennill 1, 2 a 3, a chanu'r cytgan fel pennill 4

NID LLWYNOG OEDD YR HAUL

Maen nhw'n deud dy fod ti wedi maeddu;
Maen nhw'n deud nad wyt ti yn fy haeddu;
Maen nhw'n deud 'mod inne'n colli arna'
Yn rhoi cyfle arall i ti wneud fy myd yn ddarna';
Ond mi wn nad llwynog oedd yr haul.

Codi mae'r tarth fel y disgyn dydd,
A nant y dyffryn yn awr ynghudd:
Dim ond niwl ar y bryniau draw,
Dim ond yr amser da yn ôl a ddaw drwy niwl y co',
Nid llwynog oedd yr haul.

Bu'r dyddiau cynnar yn felys i gyd,
Ond haul y bore sy'n siomi o hyd.
Tro yn ôl i edrych arna i:
Dwed dy fod yn caru'r hyn a weli di,
Ac mi wn nad llwynog oedd yr haul.

Bu'r byd fel gwely mwsog, gyda ti, gyda mi,
Awyr las ac oriau glasoed, gyda mi, gyda ti,
Pelydrau Mai yn wincio trwy'r awel ar y dail,
A minnau'n dal i gredu nad llwynog oedd yr haul.